# Cofrestrfa Tir EF
## Newid enw (Trawsrywiol ac Anneuaidd)

# CNG

Defnyddiwch y ffurflen hon i ddiweddaru enw'r perchennog cofrestredig yn y gofrestr teitl pan fo'r newid enw yn ymwneud ag unigolyn trawsryweddol neu anneuaidd. Dim ond os ydych yn gallu darparu'r dystiolaeth a nodir ym mhanel 2 y gallwch ei defnyddio. Am ragor o wybodaeth, gweler y 'Nodiadau canllaw ar newid enw'.

Rhaid i chi, y ceisydd, fod yn unigolyn preifat ac yn un o berchnogion cofrestredig yr eiddo.

**I ble ddylwn anfon y ffurflen hon?**

Ar ôl llenwi'r ffurflen, dylid ei dychwelyd, wedi ei marcio 'Preifat a Chyfrinachol', at:

Tîm Dinasyddion
(At sylw'r Rheolwr Risg a Sicrwydd)
Tŷ Cwm Tawe
Ffordd y Ffenics
Llansamlet
Abertawe
SA7 9FQ

**Oes rhaid imi ddefnyddio'r ffurflen hon?**

Na, does dim rhaid ichi ddefnyddio ffurflen CNG i newid eich enw. Yn lle hynny, gallwch anfon eich tystiolaeth, fel y nodir ym mhanel 2, ynghyd â ffurflen gais AP1 wedi ei llenwi. Rydym yn argymell defnyddio ffurflen CNG, fodd bynnag, i sicrhau bod eich cais yn cael ei drin yn gyfrinachol a chan y bobl gywir yn unig.

**Sut mae llenwi'r ffurflen hon**

Rhaid ichi lenwi holl baneli ffurflen CNG.

Darllenwch bob panel yn ofalus a chyfeiriwch at y nodiadau ar ochr chwith y ffurflen.

Rhaid ichi ddarparu o leiaf un eitem o dystiolaeth a restrir ym mhanel 2. Mewn rhai achosion, bydd angen ichi ddarparu mwy nag un eitem o dystiolaeth, fel y nodir yn y panel hwn.

Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.

**Pam mae eich tystiolaeth yn ofynnol**

Ar gyfer unrhyw gais i newid enw perchennog cofrestredig yn y gofrestr teitl, rhaid inni fod yn fodlon mai'r unigolyn sy'n gwneud cais i newid enw yw'r unigolyn a enwir yn y gofrestr. Mae angen tystiolaeth arnom felly sy'n darparu cyswllt rhwng yr enw cyfredol yn y gofrestr a'r enw i'w gofnodi yn y gofrestr. Rydym yn cymhwyso'r gofyniadau ac ystyriaethau hyn ar draws pob cais i newid enw.

**Sut rydym yn prosesu eich cais**

Bydd tîm profiadol wedi ei hyfforddi'n briodol yn derbyn eich cais. Byddwn yn trin eich gwybodaeth yn gyfrinachol a dim ond yr unigolyn/unigolion sy'n prosesu'r cais fydd yn ei weld.

I warchod rhag twyll, weithiau rhaid inni anfon rhybudd am newid eich enw i'ch cyfeiriad cofrestredig ac yn yr enw sy'n ymddangos ar y gofrestr ar hyn o bryd. Dim ond pan fydd yn angenrheidiol byddwn yn gwneud hyn. Gallai hyn ddigwydd pan fydd y math o dystiolaeth ar gael yn eang, megis gweithred newid enw.

**Beth fydd yn digwydd i'ch gwybodaeth?**

Byddwn yn ffeilio'ch ffurflen a'r dystiolaeth ddaw gyda hi gyda'r lefel uchaf o fynediad. Mae hyn yn golygu na fyddant yn agored i'r cyhoedd i'w harchwilio ac ni fydd copïau o'r dogfennau hyn ar gael i'w harchebu.

Mae Cofrestrfa Tir EF yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth Diogelu Data'r DU, lle gall gadw a rhannu gwybodaeth â'r canlynol:

- adrannau eraill y llywodraeth; a/neu
- cyrff gorfodi'r gyfraith a rheoleiddio gan gynnwys sefydliadau gwrth-dwyll penodedig o dan adran 68 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2007.

Mae hyn yn helpu i atal a chanfod troseddau megis twyll cofrestru neu eiddo ac ymchwilio i gynlluniau bancio tir.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

**Beth am fy enw blaenorol?**

Bydd eich enw blaenorol yn dal i ymddangos mewn rhifynnau cynharach o'r gofrestr cyn ichi newid eich enw. Ni all enwau blaenorol gael eu tynnu oddi ar, na'u newid mewn, rhifynnau cynharach o'r gofrestr. Mae'n bosibl bydd eich enw blaenorol hefyd yn ymddangos mewn cofnod yn rhifyn cyfredol y gofrestr lle'r ydych yn barti i weithred. Ni ellir newid hyn chwaith.

Mae dogfennau sy'n cael eu ffeilio gyda Chofrestrfa Tir EF yn ddarostyngedig i hawl statudol i archwilio, a bydd eich enw blaenorol yn aros mewn unrhyw ddogfennau a ffeiliwyd cyn ichi newid eich enw. Ni ellir tynnu enwau blaenorol oddi ar, na'u newid mewn, dogfennau a ffeiliwyd cyn ichi newid eich enw yn y gofrestr o ganlyniad i'r cais hwn.

Fodd bynnag, o dan reol 133 o Reolau Cofrestru Tir 2003 (fel y'u diwygiwyd), mae ffurflen CNG, ac unrhyw dystiolaeth gefnogol a anfonir, yn cael eu heithrio'n awtomatig o hawl y cyhoedd i archwilio.

**Rhybudd**

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

**Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch i lenwi'r ffurflen, ffoniwch 0300 006 0422.**

# Cofrestrfa Tir EF
## Newid enw (Trawsrywiol ac Anneuaidd)

# CNG

Dychwelwch y ffurflen hon wedi ei marcio 'Preifat a Chyfrinachol' at:
Tîm Dinasyddion
(At sylw'r Rheolwr Risg a Sicrwydd)
Tŷ Cwm Tawe
Ffordd y Ffenics
Llansamlet
Abertawe
SA7 9FQ

Nodwch y cyfeiriad post llawn gan gynnwys y cod post.

Gellir cael manylion rhifau teitl o https://www.gov.uk/chwilio-gwybodaeth-eiddo-cofrestrfa-tir

Os ydych yn darparu tystysgrif geni newydd, tystysgrif cydnabod rhyw, pasbort neu drwydded yrru, wedi eu cefnogi gan y dystiolaeth yn rhestr A neu C, **ni fyddwn** yn anfon hysbysiad o'r newid enw i'ch cyfeiriad.

Mewn achosion lle darperir llythyr gan ymarferydd meddygol, byddwn yn cysylltu â'r ymarferydd meddygol a enwir i gadarnhau bod y manylion a ddarperir yn y cais hwn yn gywir.

Os hoffech ragor o wybodaeth am ein polisi preifatrwydd, anfonwch ebost dataprotection@landregistry.gov.uk

1 Cyfeiriad a rhif teitl yr eiddo

Cyfeiriad:

Rhif teitl:

2 **Tystiolaeth o newid rhywedd**

Gallwch anfon dogfen yn cynnwys eich enw blaenorol a chyfredol, fel y nodir yn **Rhestr A**.

Fel arall, gallwch anfon dogfen o **Restr B** yn eich enw cyfredol, ynghyd ag un neu ragor o'r dogfennau o **Restr A neu C**. Ym mhob achos, dim ond copi gwreiddiol neu gopi ardystiedig o bob un y gallwn ei dderbyn.

**Rhestr A**

☐ Gweithred newid enw
☐ Datganiad o wirionedd
☐ Datganiad statudol

**Rhestr B** (rhaid i hyn gael ei gefnogi gan **un neu ragor** o'r dogfennau o **Restr A neu Restr C**)

☐ Trwydded yrru
☐ Pasbort
☐ Tystysgrif cydnabod rhyw
☐ Tystysgrif geni newydd
☐ Llythyr gan ymarferydd meddygol yn y DU (nodwch fanylion yr ymarferydd meddygol isod)

Enw:
Cyfeiriad:

Rhif ffôn:
Cyfeiriad ebost:

Rhaid i'r llythyr gadarnhau eich bod wedi byw yn eich rhyw a gadarnhawyd am y 2 flynedd flaenorol, neu fod hwn yn barhaol neu'n debygol o fod yn barhaol, a'ch bod bellach yn cael eich adnabod fel yr enw yr hoffech ei gofnodi ar y gofrestr fel y nodir isod.

**Rhestr C**

☐ Trwydded yrru yn eich enw blaenorol
☐ Pasbort yn eich enw blaenorol
☐ Bil cyfleustodau yn eich enw blaenorol
☐ dogfen swyddogol arall yn eich enw blaenorol (e.e. tystysgrif priodas)

| | | |
|---|---|---|
| | 3 | **Enw i'w dynnu oddi ar y gofrestr:** |
| Y ceisydd yw'r person sy'n gwneud y cais. Os ydych yn gwneud y cais eich hunan, hwn fydd eich enw cyfredol, yn hytrach na'ch enw blaenorol. | 4 | **Enw i'w gofnodi yn y gofrestr:** |
| Rhowch enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person sy'n gwneud cais i newid y gofrestr. Byddwn yn ysgrifennu i'r cyfeiriad hwn os bydd angen cysylltu â'r person neu roi gwybod iddo pan fyddwn wedi newid y gofrestr | 5 | **Manylion y ceisydd**<br><br>Enw:<br><br>Cyfeiriad:<br><br>Rhif ffôn: |
| Dewiswch un opsiwn a rhowch fanylion cyfeiriad llawn os yw hyn yn wahanol i'r enw a'r cyfeiriad ym mhanel 5.<br><br>Os na ddewisir unrhyw opsiwn, caiff eich tystiolaeth ei dychwelyd i'r enw a'r cyfeiriad ym mhanel 5. | 6 | **Ydych chi am inni ddychwelyd y dystiolaeth?**<br>☐ Nac ydw, nid wyf am ichi ddychwelyd y dystiolaeth<br>☐ Ydw, wedi ei chyfeirio at yr enw a'r cyfeiriad a nodir ym mhanel 5<br>☐ Ydw, wedi ei chyfeirio at y canlynol<br><br>Enw:<br><br>Cyfeiriad: |
| Llofnodwch a dyddiwch y panel hwn yn eich enw cyfredol, yn hytrach na'ch enw blaenorol | 7 | **Llofnod y ceisydd a enwir yn adran 5**<br><br>Llofnod:<br><br>Dyddiad: |

**<u>Rhybudd</u>**

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

**Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch i lenwi'r ffurflen, ffoniwch 0300 006 0422.**

© Hawlfraint y Goron (LR/HO) 09/24